Gwasanaeth Canser Felindre
Velindre Cancer Service

# Information for patients starting anti- cancer drug treatment

Your specialist cancer team will talk with you about the treatment that they recommend for your type of cancer. You will also have the opportunity to ask any questions about the treatment and the possible side effects.

There are many different types of anti-cancer drug treatments, and you may be given one or more different types of treatment in combination.

It can be very difficult to remember everything you have been told. To help you to be best prepared for your treatment we recommend that you watch the education video / videos for your type of treatment and read the information leaflets for your specific treatment. These can be found on the Velindre website using the QR code below.

We recommend that you only use trusted websites such as CRUK and Macmillan or other NHS websites to find information about your cancer and the treatment options.

The information leaflets are best read online as they contain links to additional useful information. If you cannot access the internet we can print the leaflets for you.

**Please ask your cancer doctor, nurse or pharmacist to indicate below which of the videos you should watch, and the name of the anti-cancer drug treatment leaflet or leaflets you should read.** This will depend on what type of treatment or combination of treatments they are planning for you to have.

Videos

| | |
|---|---|
| 1. Chemotherapy | 4. Tyrosine Kinase Inhibitor (TKI) |
| 2. Sepsis and Cancer | 5. Cyclin Dependent Kinase (CDK) inhibitor |
| 3. Checkpoint inhibitor immunotherapy | 6. PARP inhibitor |

**Information leaflets:**

(**note for staff:** please write clearly the full name of the SACT leaflet or leaflets as it appears on the webpage )

Leaflet / Treatment name:

# Gwybodaeth i gleifion sy'n dechrau cael triniaeth gyda chyffuriau gwrthganser

Bydd eich tîm canser arbenigol yn siarad gyda chi am y driniaeth maen nhw'n ei hargymell ar gyfer eich math chi o ganser. Byddwch hefyd yn cael y cyfle i ofyn unrhyw gwestiynau am y driniaeth a'r sgîl-effeithiau posibl.

Mae yna lawer o wahanol fathau o driniaethau y gallwch eu cael gyda chyffuriau gwrthganser, ac efallai y byddwch yn cael un neu fwy o wahanol fathau o driniaethau gyda'i gilydd.

Mae'n gallu bod yn anodd iawn cofio popeth sydd yn cael ei ddweud wrthych chi. Er mwyn eich helpu i fod mor barod â phosibl ar gyfer eich triniaeth, rydym yn argymell eich bod yn gwylio'r fideo/fideos addysg ar gyfer eich math o driniaeth ac yn darllen y taflenni gwybodaeth ar gyfer eich triniaeth benodol. Mae'r rhain i'w cael ar wefan Felindre gan ddefnyddio'r cod QR isod.

Rydym yn argymell eich bod ond yn defnyddio gwefannau dibynadwy fel CRUK a Macmillan neu wefannau eraill y GIG i ddod o hyd i wybodaeth am eich canser a'r opsiynau triniaeth.

Mae'n well darllen y taflenni gwybodaeth ar-lein gan eu bod yn cynnwys dolenni i wybodaeth ddefnyddiol ychwanegol. Os na allwch gael mynediad i'r rhyngrwyd, gallwn argraffu'r taflenni i chi.

**Gofynnwch i'ch meddyg, nyrs neu fferyllydd canser nodi isod pa fideos y dylech eu gwylio, ac enw'r daflen neu'r taflenni triniaeth cyffuriau gwrthganser y dylech eu darllen.** Bydd hyn yn dibynnu ar ba fath o driniaeth neu gyfuniad o driniaethau maen nhw'n bwriadu i chi eu cael.

Fideos

| | |
|---|---|
| 1. Cemotherapi | 4. Atalydd Tyrosine Kinase (TKI) |
| 2. Sepsis a chanser | 5. Atalydd Kinase sy'n Ddibynnol ar Cyclin (CDK) |
| 3. Imiwnotherapi atalydd pwynt gwirio | 6. Atalydd PARP |

**Taflenni Gwybodaeth:**

(**nodyn i staff:** ysgrifennwch yn glir enw llawn y daflen neu'r taflenni SACT fel y mae'n ymddangos ar y dudalen we)

Enw'r daflen / triniaeth: